

## Cylchlythyr

# Cronfa Datblygu Darpariaeth Cyfrwng Cymraeg

**Dyddiad:** 3 Rhagfyr 2007  
**Cyfeirnod:** W07/49HE  
**At:** Penaethiaid sefydliadau addysg uwch yng Nghymru  
**Ymateb erbyn:** 20 Rhagfyr 2007  
(i Ganolfan Datblygu Addysg Cyfrwng Cymraeg)

**Cyswllt:**

Enw:	Alison Allan
Ffôn:	029 2068 2223
Ebost:	2 <a href="mailto:Halison.allan@hefcw.ac.uk">Halison.allan@hefcw.ac.uk</a>
Enw:	Dr Ioan Matthews
Ffôn:	01267 245 670
Ebost:	3 <a href="mailto:Hi.a.matthews@mantais.ac.uk">Hi.a.matthews@mantais.ac.uk</a>

Yn y cylchlythyr hwn cyflwynir canlyniadau'r ymgynghoriad ar Gronfa Datblygu Darpariaeth Cyfrwng Cymraeg CCAUC a phenderfyniadau CCAUC yng ngoleuni'r ymgynghoriad. Nodir hefyd y trefniadau ar gyfer y Gronfa yn 2007/08.

Mae'r ddogfen hon ar gael ar-lein, mewn print mawr, mewn Braille, ar CD ac ar CD a chasét sain. Os hoffech chi neu rywun arall ei chael mewn fformat arall, cysylltwch â ni drwy [ffonio](tel:02920682280) (029) 2068 2280 neu e-bostiwch [1Hinfo@hefcw.ac.uk](mailto:1Hinfo@hefcw.ac.uk).

Noddir gan  
Lywodraeth Cynulliad Cymru  
Sponsored by  
Welsh Assembly Government



## Cyflwyniad

- 1 Yn y cylchlythyr hwn cyflwynir canlyniadau'r ymgynghoriad ar Gronfa Datblygu Darpariaeth Cyfrwng Cymraeg CCAUC a phenderfyniadau CCAUC yng ngoleuni'r ymgynghoriad. Nodir hefyd y trefniadau ar gyfer y Gronfa yn 2007/08.

## Cefndir

- 2 Yn ystod cyfarfod y Grŵp Sector Addysg Uwch Cyfrwng Cymraeg (GSAU CC) a gynhaliwyd ym mis Mehefin 2007, bu'r aelodau'n trafod cynigion a wnaethpwyd gan CCAUC ynghylch defnyddio'r Gronfa Datblygu Darpariaeth Cyfrwng Cymraeg yn y dyfodol. Cynlluniwyd y rhain i alluogi'r Gronfa i gynorthwyo'r Cynllun Datblygu Cenedlaethol newydd yn benodol. Roedd y cynigion yn nodi'r meini prawf allweddol ar gyfer y Gronfa, ynghyd â dull gweithredu er mwyn llunio rhaglen ddatblygu ar draws y sector ac er mwyn dyrannu'r arian sydd ar gael. Fel rhan o hyn, roedd y papur yn cynnig terfynu'r dyraniadau uniongyrchol y mae rhai sefydliadau yn eu cael gan y Gronfa ar hyn o bryd, dros gyfnod o ddwy flynedd.
- 3 Roedd aelodau'r GSAU CC yn cefnogi'r meini prawf a'r ymagwedd gyffredinol at baratoi a dyrannu arian yn erbyn y rhaglen ddatblygu. Mynegwyd cryn bryder, fodd bynnag, ymhlith y tri darparwr mwyaf o ran darpariaeth cyfrwng Cymraeg sy'n cael dyraniadau uniongyrchol sef Prifysgol Aberystwyth, Prifysgol Bangor a Choleg y Drindod Caerfyrddin, ynghylch y cynigion i addasu'r dull dyrannu o 2007/08, gan eu bod eisoes wedi cynllunio eu gwariant ar gyfer y flwyddyn i ddod.
- 4 Roeddem wedi penderfynu ymgynghori ar y Gronfa drwy GSAU CC gan mai hwn oedd y grŵp y rhoddwyd y cyfrifoldeb iddo gan AUC dros ddatblygu'r Fframwaith Strategol Cyfrwng Cymraeg a'r Cynllun Datblygu Cenedlaethol. Fodd bynnag, roedd yr Aelodau o'r farn y dylid ymgynghori gyda phenaethiaid y sefydliadau yn uniongyrchol hefyd.
- 5 Yng ngoleuni'r pryderon hyn, aethom ati i gynnal ymarfer ymgynghori ffurfiol yn ystod yr haf, a oedd yn cynnwys ymagwedd ddiwygiedig a fyddai'n rhoi rhagor o amser i sefydliadau baratoi ar gyfer y newidiadau arfaethedig i'r dull dyrannu.

## Yr ymatebion i'r ymgynghoriad a phenderfyniadau CCAUC

- 6 Dangosodd yr ymatebion i'r ymgynghoriad fod y sefydliadau ar y cyfan yr un mor gefnogol i'r meini prawf allweddol a'r ymagwedd gyffredinol ag aelodau'r GSAU CC. Roedd rhywfaint o bryder o hyd ymhlith sefydliadau sy'n cael dyraniadau uniongyrchol ynghylch y cynigion i derfynu'r arian sy'n cael ei glustnodi iddynt. Cynhwysir crynodeb o'r ymatebion a wnaethpwyd i'r ymgynghoriad yn Atodiad A.

- 7 Buom yn ystyried yr ymatebion i'r ymgynghoriad yng nghyfarfod y Cyngor ym mis Medi 2007.
- 8 Cadarnhawyd y meini prawf allweddol ar gyfer y Gronfa Darpariaeth Cyfrwng Cymraeg, fel y'u nodir yn y ddogfen ymgynghori (gweler Atodiad B). Byddwn yn gweithio gyda'r GSAU CC a'r Ganolfan Datblygu Addysg Cyfrwng Cymraeg (CDACC) i lunio rhaglen datblygu a chyllido i'r sector y gellir dyrannu arian y Gronfa yn ei herbyn.
- 9 Yr ydym, fodd bynnag, wedi penderfynu y byddwn yn parhau gyda'r dull dyrannu presennol ar gyfer 2007/08 o ran y dyraniadau uniongyrchol i Brifysgol Aberystwyth, Prifysgol Bangor, Coleg y Drindod, Caerfyrddin ac Athrofa Prifysgol Cymru, Caerdydd, a dyrannu swm ar gyfer datblygiadau gan APCC a'r sefydliadau eraill yn y sector. Fodd bynnag, bydd y swm a neilltuwyd ar gyfer dyraniadau yn erbyn y cynnydd mewn cofrestriadau yn dod i ben ac yn cael ei ychwanegu at y swm sydd ar gael o fewn y Gronfa ar gyfer datblygiadau ar y cyd.
- 10 Rydym yn gohirio penderfyniad ynghylch yr union drefniadau ar gyfer 2008/09 ymlaen hyd gyfarfod y Cyngor ym mis Chwefror 2008. Bydd gwneud penderfyniadau ar yr adeg hon yn cyd-fynd â chylchoedd cynllunio'r sefydliadau ar gyfer datblygiadau cyfrwng Cymraeg, y maent wedi nodi y byddant yn cychwyn ym mis Mawrth. Bydd gohirio'r penderfyniad am y cyfnod hwn o amser yn rhoi cyfle i'r sector, CCAUC a'r CDACC gael rhywfaint o brofiad ymarferol o lunio cynigion sefydliadol ac ar y cyd mewn rhaglen ddatblygu ystyrlon.
- 11 Wrth wneud ei benderfyniadau, cadarnhaodd y Cyngor ei ymrwymiad cadarn tuag at ddefnyddio'r Gronfa Ddatblygu mewn ffyrdd sy'n gyson â'r Cynllun Datblygu Cenedlaethol ac sy'n ei gefnogi. Byddem yn ystyried bod cynnig cyllid datblygu ar unrhyw sail arall yn ddefnydd gwael o arian cyhoeddus a chredwn y byddai'r sefydliadau sy'n elwa fwyaf ar yr arian presennol yn cytuno gyda'r safbwynt hwn. Yn ogystal, byddem yn disgwyl y bydd y sefydliadau hyn, oherwydd maint eu cyfraniad i weithgareddau cyfrwng Cymraeg cyffredinol, yn parhau i elwa fwyaf ar yr arian o dan unrhyw drefniadau diwygiedig, ond, o hyn ymlaen, mewn ffyrdd sydd wedi'u cysylltu'n drefnus â'r Cynllun Datblygu Cenedlaethol.
- 12 Cyflwynwyd papur ar ganlyniadau'r ymgynghoriad, gan gynnwys penderfyniadau CCAUC ar sut y câi'r Gronfa Ddatblygu ei defnyddio yn y dyfodol, i gyfarfod y GSAU CC ym mis Tachwedd 2007. Cymeradwywyd y papur yn unfrydol gan yr aelodau.

## Dyraniadau o'r Gronfa Datblygu Darpariaeth Cyfrwng Cymraeg ar gyfer 2007/08

- 13 Maint y Gronfa Datblygu Darpariaeth Cyfrwng Cymraeg y mae CCAUC wedi cytuno arni ar gyfer 2007/08 yw £390,000.
- 14 Nid yw rhan o'r Gronfa ar gyfer 2006/07 wedi cael ei dyrannu eto. Mae hyn yn cynnwys swm o £51,970 a neilltuwyd i sefydliadau heblaw am Brifysgol Aberystwyth, Prifysgol Bangor a Choleg y Drindod Caerfyrddin i wneud ceisiadau i'r CDACC am gymorth. Roedd cynigion wedi cael eu cyflwyno y buasai'n bosibl eu cefnogi gyda'r arian hwn. Fodd bynnag, o ystyried yr amseru a'r datblygiadau yn y GSAU CC, gan gynnwys nodi pynciau i'w datblygu ar y cyd, penderfynwyd y byddai'n well dwyn y swm hwn ymlaen i 2007/08, a chynnwys y cynigion yn y rhaglen ddatblygu. Mae'n bosibl y bydd rhai o'r cynigion hyn yn cael eu hariannu ar ôl iddynt gael eu trafod gan y paneli rhwydwaith cyfrwng Cymraeg perthnasol.
- 15 Yn yr un modd, ceir swm o £26,428 o 2006/07 ar gyfer datblygiadau cyffredinol sydd wedi cael ei ddwyn ymlaen hefyd.
- 16 Hoffem i'r sector gael cyfle i wneud cynnydd da cynnar yn erbyn y Cynllun Datblygu Cenedlaethol. Ar gyfer 2007/08 yn unig, rydym hefyd wedi gallu darparu swm ychwanegol o £270,000 i gynyddu'r cymorth sydd ar gael i'r pynciau a nodwyd gan y GSAU CC ar gyfer datblygu ar y cyd.
- 17 Mae hyn yn golygu bod cyfanswm o £738,398 o gyllid datblygu ar gael yn 2007/08. Cyflwynwyd dosbarthiad arfaethedig i'r GSAU CC yn ei gyfarfod ym mis Tachwedd. Cymeradwywyd hyn gan y Grŵp a dangosir y manylion isod:

<b>1) Pynciau ar gyfer datblygu ar y cyd (y cytunwyd arnynt gan y GSAU CC)</b>	<i>Y Gyfraith</i>	<i>£90,000</i>
	<i>Diwydiannau creadigol</i>	<i>£90,000</i>
	<i>Astudiaethau amgylcheddol</i>	<i>£90,000</i>
	<i>Pynciau sy'n gysylltiedig ag iechyd</i>	<i>£15,000</i>
	<i>Chwaraeon a Hamdden</i>	<i>£25,000</i>
	<i>Gwyddorau Biolegol</i>	<i>£15,000</i>
	<i>Addysg</i>	<i>£60,000</i>
<b>2) Dyraniadau uniongyrchol:</b>	<i>Prifysgol Aberystwyth</i>	<i>£48,007*</i>
	<i>Prifysgol Bangor</i>	<i>£105,617*</i>
	<i>Coleg y Drindod, Caerfyrddin</i>	<i>£68,676*</i>
	<i>Athrofa Prifysgol Cymru, Caerdydd</i>	<i>£13,338*</i>
<b>3) Swm sydd ar gael am gynigion gan:</b>	<i>Prifysgol Morgannwg, Prifysgol Caerdydd, PC Llanbedr Pont Steffan, Prifysgol Abertawe, Athrofa Prifysgol Cymru, Caerdydd, PC Casnewydd, AGDdC, AAU Abertawe. Y Brifysgol Agored yng Nghymru</i>	<i>£53,352 * a'r hyn a ddygwyd ymlaen o 2006/07 £51,970 = £105,322</i>
<b>Gweddill</b>		<b>£12,438</b>

Formatted: Font: Not Bold, Italic

Formatted: Font: Not Bold, Italic

\* wedi'i gynyddu yn unol ag uwchraddiad cyffredinol CCAUC mewn dyraniadau addysgu rhwng 2006/07 a 2007/08.

## Llunio rhaglen datblygu a chyllido i'r sector

- 18 Bydd rhai o'r prosiectau a gynhwysir yn y rhaglen datblygu a chyllido yn dod drwy'r cynlluniau ar gyfer y rhestr gychwynnol o bynciau a nodwyd gan y GSAU CC yn y Cynllun Datblygu Cenedlaethol ar gyfer datblygu ar y cyd yn y sector. Y rhain yw: Y Gyfraith; Diwydiannau creadigol; Astudiaethau amgylcheddol; Addysg; Pynciau'n gysylltiedig ag iechyd; Chwaraeon a Hamdden; Gwyddorau Biolegol. Tasg i'r paneli rhwydwaith cyfrwng Cymraeg fydd hon ac yn ystod y misoedd nesaf bydd y paneli sy'n gweithio gyda'r CDACC yn llunio cynlluniau datblygu ar gyfer eu pynciau.
- 19 Gall datblygiadau eraill gael eu rhoi gerbron gan un sefydliad neu grŵp llai o sefydliadau os ystyrir bod yna faes arbenigol, mäs critigol o ddarpariaeth neu ddarparwr arweiniol. Disgwyliad CCAUC yw y bydd y sefydliadau, mewn rhai achosion, yn gallu defnyddio eu hadnoddau eu hunain neu'n cael cyllid o ffynonellau eraill i gyfrannu at rai o'r prosiectau. Bydd y rhannau hyn o'r rhaglen ddatblygu yn cael eu rhoi wrth ei gilydd mewn dau gam:
- cyflwyno mynegiadau o ddiddordeb erbyn 20 Rhagfyr 2007, wedi'i ddilyn gan
  - gyflwyno cynigion mwy manwl am gyllid erbyn 27 Ionawr 2007.

Rhoddir manylion pellach isod.

### ***Mynegiadau o ddiddordeb***

- 20 **Pob sefydliad:** Rydym yn gofyn i bob sefydliad gyflwyno mynegiadau o ddiddordeb i'r CDACC o ran bod yn sefydliadau arweiniol neu'n bartner sefydliadau **mewn meysydd pwnc heblaw am y rheiny a nodwyd ar gyfer cydweithio** yn y Cynllun Datblygu Cenedlaethol. Er mwyn derbyn cyllid datblygu a gwneud ceisiadau am ysgoloriaethau i raddedigion a chymrodoriaethau addysgu mewn unrhyw faes pwnc yn y dyfodol, rhaid i sefydliadau gyflwyno mynegiad o ddiddordeb. Os oes modd, dylid cyflwyno cynlluniau datblygu amlinell gyda'r pynciau dan sylw. Dylid cyflwyno'r mynegiadau o ddiddordeb erbyn **20 Rhagfyr 2007**.
- 21 **Sefydliadau sy'n derbyn dyraniadau uniongyrchol o'r Gronfa:** Yn ychwanegol at y mynegiadau o ddiddordeb a nodwyd uchod, dylai'r wybodaeth a ddarperir gan sefydliadau sy'n derbyn dyraniadau uniongyrchol o'r Gronfa amlinellu sut y byddant yn defnyddio'r cyllid hwn yn 2007/08, gan gynnwys rhoi amcan cychwynnol o'r canlyniadau arfaethedig mewn perthynas â datblygu darpariaeth a chofrestriadau cyfrwng Cymraeg ychwanegol. Mae'n bosibl y bydd eu cynlluniau ar gyfer defnyddio'r cyllid yn cynnwys y pynciau hynny a nodwyd ar gyfer datblygu ar y cyd. Yna gellir ymgorffori'r datblygiadau hyn mewn ffordd gydlynol yn y cynllun datblygu pwnc cyffredinol perthnasol.
- 22 Ar ôl derbyn y mynegiadau o ddiddordeb, bydd swyddogion CCAUC a'r CDACC yn tynnu'r wybodaeth at ei gilydd er mwyn ei thrafod â'r

sefydliadau, yn unigol neu gyda'i gilydd fel y bo'n briodol. Bydd hyn yn cynnwys ystyried y potensial ar gyfer cydweithio pellach os oes gan fwy nag un sefydliad ddiddordeb mewn maes pwnc penodol.

### ***Cynigion am gyllid***

- 23 **Sefydliadau sy'n derbyn dyraniadau uniongyrchol o'r Gronfa:** Bydd y CDACC yn gofyn i'r sefydliadau sy'n derbyn dyraniadau uniongyrchol am wybodaeth fwy manwl am y modd y defnyddir y cyllid hwn, gan gynnwys mewn perthynas â chanlyniadau cynlluniedig a graddfeydd amser. Sylwer: bydd CCAUC yn cysylltu â'r sefydliadau hyn ar wahân i geisio adroddiad monitro ar eu defnydd o ddyraniadau 2006/07.
- 24 **Prifysgol Morgannwg, Prifysgol Caerdydd, PC Llanbedr, Prifysgol Abertawe, Athrofa Prifysgol Cymru, Caerdydd, PC Casnewydd, AGDdC, AAU Abertawe, a'r Brifysgol Agored yng Nghymru:** Bydd y CDACC yn gwahodd y sefydliadau uchod i gyflwyno cynigion am gyllid yn erbyn y swm a neilltuwyd yn (3) yn y tabl ym mharagraff 17. Yn y cyd-destun hwn, mae'n bosibl y bydd rhai cynigion yn cwmpasu'r pynciau hynny a nodwyd ar gyfer datblygu ar y cyd, yn enwedig lle y mae'r rhain yn faes darpariaeth pwysig i'r sefydliadau dan sylw. Os cymeradwyir y datblygiadau hyn, byddant yn cael eu hymgorffori yn y cynllun datblygu pwnc cyffredinol perthnasol.

(Sylwer: Gall rhai o'r cynigion a gyflwynwyd yn 2006/07 gael eu cyllido o'r swm a ddygwyd ymlaen ar ôl iddynt gael eu trafod gan y paneli rhwydwaith cyfrwng Cymraeg perthnasol.)

Bydd y CDACC yn cysylltu â'r sefydliadau'n uniongyrchol i roi manylion pellach. Ond disgwylir y bydd angen derbyn ymatebion erbyn **27 Ionawr 2008**.

### **Penderfynu ar ffurf derfynol y rhaglen datblygu a chyllido**

- 25 Bydd panel sefydlog sy'n cynnwys Cadeirydd y GSAU CC, Cyfarwyddwr y CDACC, swyddogion CCAUC a hyd at dri aelod allanol a wahoddir gan Gadeirydd y GSAU CC yn archwilio'r dosbarthiad arfaethedig yn erbyn y rhaglen ddatblygu. Bydd y broses hon yn digwydd o 11 Chwefror 2008 ymlaen. Bydd y panel yn ystyried y cynlluniau datblygu a gynigir gan y paneli rhwydwaith cyfrwng Cymraeg a'r cynigion gan sefydliadau unigol neu grwpiau o sefydliadau.
- 26 Rydym yn disgwyl y bydd yr holl ddeunyddiau ac adnoddau a gynhyrchir drwy'r Gronfa Datblygu Darpariaeth Cyfrwng Cymraeg ar gael i'r holl sefydliadau yn y sector. Cytunir ar sut i gyflawni hyn yn y trafodaethau rhwng y sefydliadau dan sylw neu rhwng y panel rhwydwaith cyfrwng Cymraeg priodol a staff y CDACC.

- 27 Hoffem bwysleisio mai dyma ddechrau'r broses o ddwyn ynghyd ddatblygiadau cydweithiol a sefydliadol i ffurfio rhaglen datblygu a chyllido gyffredinol i gefnogi'r Cynllun Datblygu Cenedlaethol. Rydym yn disgwyl y bydd y drefn yn cael ei haddasu a'i mireinio wrth fynd ymlaen.

### **Crynodeb o'r gweithredu sydd ei angen**

#### **28 *Mynegiadau o ddiddordeb:***

- Gofynnir i'r holl sefydliadau gyflwyno mynegiadau o ddiddordeb o ran bod yn sefydliadau arweiniol neu'n bartner sefydliadau mewn meysydd pwnc **heblaw am y rheiny a nodwyd ar gyfer cydweithio yn y Cynllun Datblygu Cenedlaethol** (gweler paragraff 20).
- Gofynnir i **sefydliadau sy'n derbyn dyraniadau uniongyrchol** o'r Gronfa Datblygu Darpariaeth Cyfrwng Cymraeg amlinellu hefyd sut y byddant yn defnyddio'r cyllid hwn yn 2007/08, gan gynnwys rhoi amcan cychwynnol o'r canlyniadau arfaethedig mewn perthynas â datblygu darpariaeth a chofrestriadau cyfrwng Cymraeg ychwanegol (gweler paragraff 21).

Dylai cynrychiolydd y sefydliad ar y GSAU CC anfon ymatebion erbyn **20 Rhagfyr 2007**, drwy e-bost neu lythyr, at:

Dr Ioan Matthews  
Cyfarwyddwr  
Y Ganolfan Datblygu Addysg Cyfrwng Cymraeg  
Y Llwyfan  
Ffordd y Coleg  
CAERFYRDDIN  
SA31 3EP

E-bost [i.a.matthews@mantais.ac.uk](mailto:i.a.matthews@mantais.ac.uk)

#### **29 *Cynigion am gyllid***

Bydd y CDACC yn cysylltu:

- â'r sefydliadau canlynol i ofyn am wybodaeth fwy manwl am y modd y byddant yn defnyddio eu dyraniadau uniongyrchol o'r Gronfa Datblygu Darpariaeth Cyfrwng Cymraeg yn 2007/08.

Prifysgol Aberystwyth  
Prifysgol Bangor  
Coleg y Drindod, Caerfyrddin  
Athrofa Prifysgol Cymru, Caerdydd  
(gweler paragraff 23)

- â'r sefydliadau canlynol i wahodd cynigion am gyllid:

Prifysgol Morgannwg  
Prifysgol Caerdydd  
PC Llanbedr  
Prifysgol Abertawe  
APCC  
PC Casnewydd  
AGDdC  
AAU Abertawe  
Y Brifysgol Agored yng Nghymru  
(gweler paragraff 24)

- 30 Bydd CCAUC yn cysylltu â Phrifysgol Aberystwyth, Prifysgol Bangor, Coleg y Drindod Caerfyrddin ac APCC ar wahân i ofyn am adroddiadau monitro ar eu defnydd o ddyraniadau 2006/07 (gweler paragraff 23).

***Disgwylir y bydd angen ymatebion erbyn 27 Ionawr 2008.***

- 31 Bydd y CDACC yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am gynnydd i'r GSAU CC yn ei gyfarfod nesaf ar 22 Chwefror 2008.



## Ymgynghoriad y Gronfa Datblygu Darpariaeth Cyfrwng Cymraeg (Cylchlythyr W07/25HE)

### Crynodeb o'r ymatebion

Cafwyd ymatebion gan y canlynol:

Prifysgol Morgannwg  
Prifysgol Aberystwyth  
Prifysgol Bangor  
Prifysgol Caerdydd  
Prifysgol Cymru, Llanbedr Pont Steffan  
Prifysgol Abertawe  
Prifysgol Cymru, Casnewydd  
Coleg y Drindod, Caerfyrddin

Gosodwyd yr ymgynghoriad yng nghyd-destun ymrwymiad y sector, trwy gyfrwng AUC, i fframwaith strategaeth ar gyfer darpariaeth cyfrwng Cymraeg. Mae hyn yn cynnwys y gwaith o baratoi a gweithredu Cynllun Datblygu Cenedlaethol cynhwysfawr trwy gyfrwng y Grŵp Sector Addysg Uwch Cyfrwng Cymraeg (GSAU CC) newydd.

### Cwestiynau'r ymgynghoriad

Aeth yr ymgynghoriad ati i geisio safbwyntiau ynghylch pedair agwedd yn benodol.

#### 1 Meini prawf allweddol ar gyfer y Gronfa yn y dyfodol

Nododd yr ymgynghoriad feini prawf allweddol y byddai CCAUC yn disgwyl eu gweld yn cael eu mabwysiadu ar gyfer y Gronfa, er mwyn sicrhau ei bod yn cynorthwyo'r Cynllun Datblygu Cenedlaethol: Roedd GSAU CC eisoes wedi cymeradwyo'r meini prawf hyn yn ystod ei gyfarfod ym mis Mehefin 2007.

- Defnyddir y cyllid i hybu datblygu ac ehangu darpariaeth cyfrwng Cymraeg.
- Defnyddir y cyllid yn uniongyrchol i gefnogi Adran 2 o Gynllun Datblygu'r Sector (Datblygu Darpariaeth). Ni fydd prosiectau nad ydynt yn gyson â'r cynllun yn cael eu cyllido.
- Defnyddir y cyllid yn strategol i sicrhau'r budd mwyaf o'r adnoddau sydd ar gael.
- Dyrennir y cyllid yn erbyn cynlluniau datblygu clir y mae ganddynt allbynnau mesuradwy, targedau ac amserlenni, gan gynnwys ar gyfer paratoi a gwneud darpariaeth, a chofrestriadau myfyrwyr, a bydd cynnydd yn cael ei fonitro'n agos yn erbyn y rhain.
- Bydd mecanweithiau ar gyfer gohirio, adennill neu dynnu cyllid yn ôl os nad yw prosiectau'n gwneud y cynnydd y cytunwyd arno, neu os nad oes sicrwydd digonol y gellir gwneud cynnydd. Caiff y cyllid hwn ei ailddyrannu i brosiectau eraill.

## **Ymatebion**

Cefnogwyd y meini prawf hyn gan ymatebwyr i'r ymgynghoriad, gyda rhai yn nodi'n arbennig eu bod yn eu croesawu'n fawr. Croesawodd un sefydliad, nad oedd yn gefnogol o'r cynigion eraill yn y cylchlythyr, y meini prawf "mewn egwyddor".

## **2 Trefniadau ar gyfer y Gronfa Datblygu Darpariaeth Cyfrwng Cymraeg yn y dyfodol**

Roedd yr adran hon yn nodi'r trefniadau ynghylch pennu'r defnydd a wneir o'r gronfa yn y dyfodol. Gellir gweld y manylion ym mharagraffau 10 i 17 y cylchlythyr. Yn fras, roedd hyn yn awgrymu llunio cynllun ariannu a fyddai'n cyd-fynd â'r Cynllun Datblygu Cenedlaethol. Byddai'r cam cyntaf yn ymwneud â sefydliadau yn paratoi datganiadau o ddiddordeb o ran y pynciau a neilltuwyd eisoes ar gyfer datblygiadau ar y cyd gan GSAU CC a phynciau yr oedd sefydliadau o'r farn bod ganddynt rôl arweiniol/darpariaeth arbenigol yn eu cylch. Byddai'r rhaglen ddatblygu hon yn cael ei chyflwyno yng nghyfarfod cyntaf GSAU CC yn ystod blwyddyn academaidd 2007/08.

Yna, byddai dosbarthiad y Gronfa yn cael ei ystyried yn erbyn y rhaglen ddatblygu, gan banel a fyddai'n cynnwys cadeirydd GSAU CC, Cyfarwyddwr y Ganolfan Datblygu Addysg Cyfrwng Cymraeg, swyddogion CCAUC a hyd at dri o aelodau allanol a fyddai'n cael eu gwahodd gan gadeirydd GSAU CC. Byddai cyfuniad o neilltuo arian ar gyfer pynciau a flaenoriaethwyd ar gyfer gweithgarwch datblygu ar y cyd (gan gynnwys trwy gyfrwng cynlluniau a luniwyd gan baneli pwnc y rhwydwaith), a gwneud dyraniadau yn erbyn cynigion ar gyfer datblygiadau gan sefydliadau unigol neu weithgarwch ar y cyd gan grwpiau llai o sefydliadau.

## **Ymatebion**

Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr yn cytuno gyda'r dull gweithredu cyffredinol hwn. Roedd rhai o'r sylwadau cefnogol a wnaethpwyd yn gadarnhaol iawn. Gwelwyd nifer o sylwadau yn pwysleisio pwysigrwydd gweithio ar y cyd er mwyn sicrhau bod y defnydd gorau yn cael ei wneud o'r adnoddau sydd ar gael, gan groesawu'r gydnabyddiaeth i rolau arweiniol neu farchnadoedd arbenigol ar gyfer sefydliadau mewn rhai meysydd pwnc. Cwestiynodd un sefydliad a oedd yr amserlen ar gyfer 2007/08 ychydig yn dynn.

Er bod y cylchlythyr yn nodi y byddai'r dull gweithredu tuag at bennu dosbarthiad arian yn un o drafod a chytuno yn bennaf, mynegwyd y safbwynt bod y dull gweithredu yn debygol o arwain at gystadleuaeth yn hytrach na chydweithio. Gallai hyn arwain at brosiectau adrannol/sefydliadol llai, ond pwysig, yn cystadlu yn erbyn prosiectau mwy ar y cyd, ac y byddent dan anfantais o ganlyniad, ac y byddai o gymorth clustnodi rhywfaint o arian ar gyfer prosiectau unigol. Roedd un ymateb yn fwy beirniadol, gan argymhell y dylai'r tri darparwr mwyaf o ran darpariaeth cyfrwng Cymraeg fod yn gyfrifol am arwain datblygiadau sectorol mewn meysydd pwnc penodol, "mentora" eraill wrth

iddynt ehangu eu darpariaeth ac arwain y paneli pwnc, er mwyn osgoi datblygiadau adhoc “unigol”. Byddai hyn yn darparu tri phartner allweddol ar gyfer y Ganolfan Datblygu Addysg Cyfrwng Cymraeg ac yn golygu na fyddai angen y panel dyrannu a awgrymwyd yn yr ymgynghoriad.

### **3 Trefniadau pontio**

Dan y trefniadau presennol, dosbarthir oddeutu dwy rhan o dair o'r Gronfa i'r tri darparwr mwyaf o ran darpariaeth cyfrwng Cymraeg sef Prifysgol Aberystwyth, Prifysgol Bangor a Choleg y Drindod, Caerfyrddin. Mae Athrofa Prifysgol Cymru, Caerdydd yn cael dyraniad uniongyrchol llai, er ei fod yn gallu gwneud cais am arian yn ychwanegol i'r swm hwn.

Roedd y papur gwreiddiol a ystyriwyd gan GSAU CC ym mis Mehefin wedi awgrymu dull gweithredu fesul cam dros ddwy flynedd er mwyn symud o'r broses o ddyraniadau uniongyrchol i neilltuo'r holl arian yn erbyn cynllun datblygu sector yn unol â'r meini prawf allweddol. Dan y dull gweithredu hwn, byddai'r tri darparwr mwyaf yn cael 60% o'u dyraniadau cyfredol ar gyfer y flwyddyn gyntaf, a 30% yn yr ail flwyddyn.

Fodd bynnag, yn ystod y trafodaethau yn y cyfarfod, pwysleisiodd yr aelodau o'r sefydliadau a fyddai'n cael eu heffeithio fwyaf, y byddai gostyngiad rhannol hyd yn oed o ran eu dyraniadau a neilltuwyd ar gyfer 2007/08, yn ansefydlogi datblygiadau a gynlluniwyd. Aethant ymlaen i awgrymu y byddai'n well ganddynt gael blwyddyn o rybudd a thoriad cyfan gwbl gan gyflwyno'r dull newydd yn 2008/09. Felly, cyflwynwyd hwn fel dull gweithredu amgen yn ystod yr ymgynghoriad, gyda'r disgwyliad y byddai'r cynigion a gynigir gan y sefydliadau dan sylw er mwyn defnyddio'u dyraniadau uniongyrchol yn 2007/08, yn cael eu dwyn i mewn i'r cynllun datblygu sector ac yn cael eu hystyried gan y panel arfaethedig.

Gellir gweld manylion pellach am y dulliau gweithredu amgen ym mharagraffau 18 i 22 y cylchlythyr.

#### **Ymatebion**

Nododd un sefydliad ei fod yn cefnogi'r trefniadau pontio gwreiddiol a gyflwynwyd gerbron GSAU CC. Yn gyffredinol, roedd sefydliadau eraill nad oeddent yn cael dyraniadau uniongyrchol gan y Gronfa yn fodlon gyda'r naill ddull gweithredu neu'r llall. Roeddent yn cydnabod pryderon sefydliadau a oedd yn cael dyraniadau uniongyrchol, felly roeddent yn fodlon derbyn y dull gweithredu amgen er mwyn rhoi amser iddynt addasu i'r trefniadau newydd. Er tegwch i'r rhai nad oeddent yn cael dyraniadau uniongyrchol, awgrymodd un sefydliad y dylai'r sefydliadau dan sylw nodi sut yr oeddent yn bwriadu defnyddio eu harian ac os na fyddai tystiolaeth ddigonol y byddai hyn yn arwain at ddatblygiadau priodol, efallai y byddai modd cadw cyfran o'r arian yn ôl i'w ddefnyddio ar gyfer prosiectau a oedd yn cynnwys sefydliadau eraill.

Yn yr ymatebion a gafwyd gan sefydliadau a oedd yn cael dyraniadau uniongyrchol, roedd y pryderon yn parhau y byddai terfynu'r dyraniadau hyn yn tansellio eu gwaith a'r dull gweithredu strategol a chynaliadwy yr oeddent wedi ceisio'i feithrin. Roeddent yn pwysleisio ffactorau megis y buddsoddiad helaeth a wnaethpwyd mewn darpariaeth cyfrwng Cymraeg dros y blynyddoedd diwethaf, pwysigrwydd yr arian i brosiectau bach, ond arwyddocaol, mewn adrannau academaidd, ac y gallai'r newid arfaethedig niweidio cynnydd yn y dyfodol a pheryglu'r cyflawniadau a sicrhawyd hyd yn hyn hefyd. Os byddai CCAUC yn penderfynu gweithredu'r newidiadau a nodwyd yn y dull amgen, nododd un ymateb fod y rhybudd o flwyddyn a gynigiwyd, yn hanfodol. Fel y nodwyd uchod, roedd un ymateb yn fwy beirniadol, gan ddehongli'r dull gweithredu arfaethedig fel proses ymgeisio flynyddol na fyddai'n ffafriol i gynllunio strategol ac a fyddai'n arwain at ddatblygiadau anghynaliadwy a digyswllt. Roedd yn dymuno gweld yr arian sy'n bodoli eisoes yn cael ei gadw yn y tri phrif sefydliad cyfrwng Cymraeg (er mwyn lleddfu effaith newid), a chan ofyn iddynt gyflawni rôl o arwain a mentora sefydliadau eraill yn y sector. Byddai hyn yn caniatáu i strwythur sectorol newydd – "rhwydwaith" – i esblygu.

Nododd sawl un o'r ymatebwyr bryderon ynghylch y ffaith nad yw'r arian sydd ar gael yn ddigon i gyflawni'r gwaith o ehangu'r ddarpariaeth a ragwelwyd yn y cynllun datblygu cenedlaethol: yn y cyd-destun hwn, mynegwyd pryder gan rai bod y cynigion yn ailddosbarthu'r arian presennol yn hytrach na darparu buddsoddiad ychwanegol.

### **Elfen gofrestriadau y Gronfa**

Dan y trefniadau cyfredol, mae cyfran o'r Gronfa ar gael i'w neilltuo ar sail cynnydd mewn cofrestriadau. Nododd yr ymgynghoriad ddymuniad CCAUC (gan gymryd bod elfennau eraill y Gronfa yn parhau am flwyddyn bellach) i stopio'r arfer hwn a'i ychwanegu at y swm sy'n weddill er mwyn cynorthwyo'r cynllun datblygu ar ôl i'r dyraniadau uniongyrchol gael eu gwneud.

### **Ymatebion**

Roedd yr ymatebion yn amrywio. Roedd sawl un, naill ai trwy gymeradwyo'r cynigion cyffredinol neu thrwy wneud datganiad penodol, yn fodlon i'r elfen hon o'r Gronfa ddod i ben. Aeth un ymlaen i nodi dymuniad i gadw'r elfen hon. Roedd un arall yn gweld mantais cymhelliad o'r natur hon mewn egwyddor, ond gan gydnabod rhesymau CCAUC dros ei stopio ac felly, roedd yn cefnogi'r newid arfaethedig.

**Meini prawf allweddol ar gyfer y Gronfa Datblygu Darpariaeth Cyfrwng Cymraeg**

Bydd y meini prawf canlynol yn cael eu mabwysiadu wrth ystyried y defnydd o Gronfa Datblygu Darpariaeth Cyfrwng Cymraeg CCAUC.

- Defnyddir y cyllid i hybu datblygu ac ehangu darpariaeth cyfrwng Cymraeg.
- Defnyddir y cyllid yn uniongyrchol i gefnogi Adran 2 o Gynllun Datblygu'r Sector (Datblygu Darpariaeth). Ni fydd prosiectau nad ydynt yn gyson â'r cynllun yn cael eu cyllido.
- Defnyddir y cyllid yn strategol i sicrhau'r budd mwyaf o'r adnoddau sydd ar gael.
- Dyrennir y cyllid yn erbyn cynlluniau datblygu clir y mae ganddynt allbynnau mesuradwy, targedau ac amserlenni, gan gynnwys ar gyfer paratoi a gwneud darpariaeth, a chofrestriadau myfyrwyr, a bydd cynnydd yn cael ei fonitro'n agos yn erbyn y rhain.
- Bydd mecanweithiau ar gyfer gohirio, adennill neu dynnu cyllid yn ôl os nad yw prosiectau'n gwneud y cynnydd y cytunwyd arno, neu os nad oes sicrwydd digonol y gellir gwneud cynnydd. Caiff y cyllid hwn ei ailddyrranu i brosiectau eraill.